# EISTEDDFOD
## Y Garreg Las
1–8 Awst 2026

### 606. Llefaru unigol 12 ac o dan 16 oed

## Llantwd a’r Cyffiniau

Beth yw milltir sgwâr? medd Llantwd.
Beth yw bro? medd Pen-y-Bryn.
Beth yw hyd a lled adnabod,
medd Cilgerran, erbyn hyn?

A wês sôn am ein cymdogion?
Am eu ceir a’u cŵn a’u plant?
A wês pawb yn gwybod enw
pob un ffarm a bwlch a nant?

A wês sôn o hyd am Broyan
yn y mart neu yn y ffair?
A yw cegin Glanpwllafon
Yn llawn clonc cynhaea’ gwair?

Ym Mhenrallt a Phantygrwndy,
Croes y Forwyn a Phengâr,
a wês torri cwysi cywir,
a wês torchi llewys gwâr?

Yn yr Oernant a Thredefaid,
Felin-ganol a Rhos-fach,
a wês emyn-dôn ac unawd
yng nghymanfa’r awyr iach?

Yn y Clos a Nantperchellan,
a wês grawn yn llenwi’r sach?
A wês gweddi yng Nghwmbetws
a storiáus ym Mhenrallt-fach?

‘Wês’ a ‘Na Wês’ yw’r atebion
i’r cwestiynau, fel eriôd,
ond mae’r enwau wedi aros,
ni waeth beth, trwy’r mynd a dod.

Fesul enw, fesul erw,
fesul sillaf, fesul si,
yn yr enwau mae ’na straeon
sydd yn dweud ein stori ni.

Ceri Wyn Jones

*Rhaid llefaru’r darn hwn yn union fel ag y mae’n ymddangos ar y copi*